

## Cyngor Sir Penfro
## 5ed Adroddiad Blynyddol Gorfodi Trefniadau Parcio Sifil

**Ebrill 2015 - Mawrth 2016**

## Cyfarwyddiaeth Trafnidiaeth, Tai a'r Amgylchedd

**Gorfodi Trefniadau Parcio Sifil – 5ed Adroddiad Blynyddol 2015/16**

1 Rhagfyr 2016

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad
2. Strategaeth a Pholisi
3. Darpariaeth Lleoedd Parcio yn Sir Benfro
4. Ein Gwasanaethau
5. Gwasanaeth Gorfodi Trefniadau Parcio Sifil
6. Cyflawni Perfformiad ac Ystadegau
7. Gwybodaeth Ariannol
8. Diweddariad ar Fentrau 2014/15
9. Datblygiadau a Mentrau yn y Dyfodol

## 1.0 Cyflwyniad

Hwn yw'r pumed adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd gennym, yn unol â gofynion Deddf Rheoli Traffig 2004. Ei nod yw rhoi gwybodaeth am sut mae Cyngor Sir Penfro yn gorfodi ei drefniadau parcio a gwasanaethau cysylltiedig a rhoi'r gwasanaeth yng nghyd-destun dyletswyddau a pholisïau eraill sy'n ymwneud â rheoli'r rhwydwaith ffyrdd.

Mae'r Cyngor yn parhau i orfodi cyfyngiadau parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd ar bob ffordd yn y Sir ac ym mhob maes parcio sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynghylch ein Hadroddiad Parcio Blynyddol, rhowch wybod i ni drwy ffonio 01437 764551 neu e-bostio parking@pembrokeshire.gov.uk.

## 2.0 STRATEGAETH A PHOLISI

### 2.1 Cefndir

Mae Gweledigaeth Strategol y Cyngor yn pwysleisio hyrwyddo amgylchedd atyniadol, glân ac iach ac mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod bod rheoli traffig yn chwarae rhan bwysig i sicrhau defnydd diogel, effeithiol a rhanbarthol o'r briffordd.

### 2.2 Polisi Codi Tâl

- Yr angen i annog masnach fanwerthu;
- Yr angen i reoli traffig, gan gynnwys parcio ar y stryd a llif y traffig;
- Yr angen i reoli'r galw'n effeithiol;
- Natur lleoliad maes parcio a'i ddefnyddwyr, h.y. siopwr trefol/busnes, preswyl, siopwr tref wledig, traeth/ymwelydd;
- Cymharu â darparwyr eraill yn yr ardal;
- Yr angen i annog defnyddio dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus;
- Ni phennir y taliadau er mwyn cynhyrchu incwm yn unig;
- Ystyried darpariaeth y gyllideb refeniw gyffredinol (gwariant ac incwm) ar gyfer meysydd parcio;
- Tybiaeth o blaid ariannu gwelliannau drwy dariff uwch.

Cymhwysir yr egwyddorion hyn yn gyson, sy'n arwain at daliadau gwahanol o le i le.

### 2.3 Rheoli'r Galw:

Ystyriwyd taliadau parcio ceir yn ôl lleoliad. Pennir taliadau parcio ceir yn Sir Benfro er mwyn annog siopwyr, ac mae'n debygol y bydd angen lleoedd arhosiad byr arnynt. Lle mae galw mawr am leoedd parcio ceir a/neu leoedd cyfyngedig, pennir cyfnodau a thariffau parcio yn ofalus er mwyn sicrhau'r trosiant gorau posibl.

## 3.0 Darpariaeth Lleoedd Parcio yn Sir Benfro

### 3.1 Oddi ar y Stryd

Mae'r Awdurdod yn rheoli meysydd parcio er mwyn darparu ar gyfer defnyddwyr arhosiad byr a hir. Codir taliadau yn unol â Pholisi'r Cyngor.

Mae darpariaeth i'r anabl yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth.

### 3.2 Ar y Stryd

Mae'r Awdurdod yn darparu cyfleusterau parcio ar y stryd ar y briffordd gyhoeddus fabwysiedig lle ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny heb ymyrryd yn amhriodol ar y traffig sy'n symud. Mae'n gwneud darpariaeth ar

gyfer aros cyfyngedig, defnyddwyr anabl, llwytho, tacsis, beiciau modur a phreswylwyr.

Mae wedi datblygu arferion cadarn a theg i reoli ymyl y palmant er mwyn diwallu anghenion croes y defnyddwyr amrywiol. Ni roddwyd cyfyngiadau ar waith heb orchymyn rheoleiddio traffig i'w cefnogi.

## 4.0 Ein Gwasanaethau

### 4.1 Parcio oddi ar y Stryd

Mae gan y Cyngor feysydd parcio sy'n codi tâl a rhai nad ydynt yn codi tâl; Ceir manylion ar wefan y cyngor www.pembrokeshire.gov.uk. Mae gan Gyngor Sir Penfro 97 o feysydd parcio y mae 32 yn rhai talu ac arddangos. Mae 18 yn codi tâl drwy gydol y flwyddyn ac mae 14 yn codi tâl tymhorol.

Rhwng 1 Ebrill 2015 ac 31 Mawrth 2016, dyroddwyd y canlynol
- 150 o docynnau tymor
- 96 o drwyddedau cilfach ar gadw
- 138 o drwyddedau Harbwr Dinbych-y-pysgod.

Mae o leiaf 6% o leoedd wedi'u neilltuo ar gyfer deiliaid bathodyn glas. Ildiodd y Cyngor daliadau ar ddyddiau penodol ym mis Rhagfyr yn y cyfnod cyn y Nadolig ym mhob maes parcio yn y Sir sy'n codi tâl.

### 4.2 Ar y Stryd

Ar hyn o bryd, mae 840 o leoedd aros cyfyngedig, 127 o leoedd i'r anabl, 33 o leoedd ar gyfer tacsis, 3 cilfach bws, 26 o gilfachau ar gyfer llwytho/dadlwytho nwyddau, 1 gilfach ambiwlans ac 1 gilfach ar gyfer beiciau modur. Ymysg y lleoedd cyffredinol, mae 668 o leoedd ar ôl i ddeiliaid trwyddedau preswylydd/busnes.

### 4.3 Parcio i Breswylwyr

Mae Cynlluniau Parcio i Breswylwyr wedi'u cyflwyno, lle y bo'n ymarferol, ar nifer o strydoedd/lleoliadau ledled y Sir. Ar hyn o bryd, mae 57 o gynlluniau ar waith, rhestr lawn yn Atodiad 1. Gweithredir pob cynllun ar y briffordd gyhoeddus dan yr un rheoliadau, sef un drwydded fesul eiddo i gerbyd penodol. Mae trwyddedau'n ddilys am hyd at 12 mis. Cost trwydded yw £40.00. Mae trwyddedau ymwelydd ar gael am hyd at 7 diwrnod am £20.00, eto un fesul eiddo i gerbyd penodol. Mae'n rhaid rhoi prawf deiliadaeth, yswiriant dilys a thystysgrif MOT.

Gweithredir cynllun oddi ar y briffordd yn Harbwr Dinbych-y-pysgod lle rhoddir un drwydded i bob eiddo, ond nid yw'n benodol i gerbyd. Cost trwydded yw £100 ac nid yw wedi codi ers 2003.

Cyhoeddwyd 940 o drwyddedau blynyddol o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016 a 193 o drwyddedau ymwelydd.

### 4.4 Goddefebau Parcio

Mewn amgylchiadau penodol, drwy roi goddefeb, mae'r Cyngor yn caniatáu parcio cerbyd yn groes i Orchymyn Rheoleiddio Traffig. Gall hefyd atal lleoedd parcio at ddibenion cadw'r lleoedd hynny ar gyfer cerbydau penodol a/neu ymgeiswyr.

Gellir rhoi goddefebau ar ffurf trwydded dros dro sy'n cynnwys manylion y digwyddiad, rhif cofrestru'r cerbyd, a'r dyddiad ac amser defnyddio. Mae'n rhaid arddangos y drwydded yn glir ar sgrîn wynt y cerbyd cymeradwy.

Rhoddwyd 142 o oddefebau o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016.

## 5.0 **Gorfodi Trefniadau Parcio Sifil**

### 5.1 <u>Timau Parcio a Gofal Stryd</u>

Mae cyfuno rheoli a gorfodi trefniadau parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd yn rhoi manteision gweithredol a chymunedol sylweddol. Ym mis Ebrill 2013, cyfunwyd y tîm gwasanaeth parcio a'r tîm gofal stryd o dan un rheolwr gweithredol. Mae gan y ddwy is-adran eu cylch gwaith eu hunain o hyd. Fodd bynnag, mae manteision y gwasanaeth cyfun hwn yn cynnwys:

- Trefniadau cydlynol ar gyfer gorfodi a rheoli parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd
- Trefniadau cydlynol ar gyfer gorfodi'r holl faterion sy'n ymwneud â phriffyrdd
- Trefniadau cydlynol ar gyfer gweithgarwch ar y rhwydwaith priffyrdd
- Rheoli a chydlynu digwyddiadau sy'n effeithio ar weithgareddau ar y stryd ac oddi ar y stryd
- Cydlynu gwaith trydydd parti ar y briffordd
- Rheoli'r holl weithgareddau trwyddedig ar y stryd ac oddi ar y stryd
- Rhoi polisïau ar waith yn fwy effeithiol

### 5.2 <u>Cynnal gorfodi trefniadau parcio sifil</u>

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Penfro yn cyflogi 13 o Swyddogion Gorfodi Sifil, 2 Glerc Technegol a 3 Swyddog Gwasanaethau Parcio; cefnogir pob un ohonynt gan y Rheolwr Gofal Stryd a Pharcio. Nid ydynt yn cael bonysau na chymhellion sy'n ymwneud â pherfformiad.

Cyflwynir hysbysiadau tâl cosb i gerbydau sy'n parcio'n groes i gyfyngiadau. Os yw modurwr am herio hysbysiad tâl cosb, mae'n rhaid iddo ddilyn y broses apêl a nodir ar gefn yr hysbysiad tâl cosb.

Ar ôl gweithredu gorfodi trefniadau parcio sifil ers mis Chwefror 2011, mae staff y Gwasanaethau Parcio wedi meithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o ran lle a phryd mae parcio di-drefn yn digwydd. Fodd bynnag, lle mae aelodau'r cyhoedd yn cael problemau parcio penodol, gallant roi gwybod i'r swyddfa amdanynt.

Mae'r tîm gwasanaethau parcio hefyd yn gyfrifol am reoli'r holl feysydd parcio, peiriannau talu ac arddangos, materion ariannol, trwyddedau preswylwyr, tocynnau meysydd parcio tymhorol ac ar gadw, goddefebau parcio a thrwyddedau meysydd parcio.

5.3 Y Swyddfa Gefn - Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru (PPC Cymru)

Mae swyddfa gefn PPC Cymru yn parhau i gael ei defnyddio er mwyn prosesu'r hysbysiadau tâl cosb a gyflwynir.

Mae cyfarfodydd chwarterol, gweithgor swyddogion, gyda chynrychiolwyr o bob Awdurdod Partner i drafod cysondeb gweithredol, rhannu arfer gorau a cheisio cyflawni arbedion effeithlonrwydd parhaus.

5.4 Asiantau Gorfodi

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn defnyddio gwasanaeth pedwar cwmni beilïod er mwyn adennill dyledion, sef Excel, Proserve, Swift ac A J Enforcement. Mae gan bob un brofiad sylweddol o'r gwaith hwn ac yn darparu gwasanaethau tebyg i gynghorau eraill PPC Cymru, yn ogystal â'n partneriaid SWWITCH, sef Cyngor Sir Caerfyrddin, Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

## 6.0 Cyflawni Perfformiad ac Ystadegau

6.1 Perfformiad Ystadegol

Mae'r tablau'n isod yn dangos ystadegau sy'n ymwneud â hysbysiadau tâl cosb a gyflwynwyd o **1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016.**

6.2 Hysbysiadau Tâl Cosb - Hynt Achosion

| | Hysbysiadau Tâl Cosb a Gyflwynwyd | % |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr hysbysiadau tâl cosb a gyflwynwyd** | | |
| | | |
| Nifer yr hysbysiadau tâl cosb a gyflwynwyd ar y stryd | 6955 | 53.32% |
| Nifer yr hysbysiadau tâl cosb a gyflwynwyd oddi ar y stryd | 6090 | 46.68% |
| | | |
| *Nifer yr hysbysiadau tâl cosb a dalwyd ar y gyfradd ostyngol* | 9093 | 69.70% |
| *Nifer yr hysbysiadau tâl cosb a dalwyd ar ôl 14 o diwrnod* | *1317* | 10.10% |
| *Nifer yr hysbysiadau tâl cosb nas talwyd* | *531* | 4.07% |
| *Nifer yr hysbysiadau tâl cosb a ddiddymwyd (gweler tabl 6.5)* | *2104* | 16.13% |

6.3 <u>Tramgwyddau Parcio ar y Stryd</u>

| Cod | Disgrifiad | Hysbysiadau Tâl Cosb a Gyflwynwyd | % |
|---|---|---|---|
| 01 | Parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod yr oriau a nodwyd | 2105 | 16.14% |
| 02 | Parcio neu lwytho/dadlwytho mewn stryd gyfyngedig lle mae cyfyngiadau aros a llwytho/dadlwytho mewn grym | 134 | 1.03% |
| 12 | Parcio mewn lle parcio preswylydd neu ddefnydd a rennir heb arddangos trwydded a roddwyd ar gyfer y lle hwnnw'n glir | 1672 | 12.82% |
| 16 | Parcio mewn lle trwydded heb arddangos trwydded ddilys | 12 | 0.09% |
| 18 | Defnyddio lle parcio mewn cysylltiad â gwerthu nwyddau neu eu cynnig neu eu harddangos i'w gwerthu lle gwaherddir hynny. | 0 | 0.00% |
| 20 | Parcio mewn bwlch llwytho a nodir â llinell felen | 0 | 0.00% |
| 21 | Parcio mewn cilfach waharddedig neu ran o gilfach | 69 | 0.53% |
| 23 | Parcio mewn lle parcio nad yw wedi'i ddynodi ar gyfer y dosbarth hwnnw o gerbyd | 376 | 2.88% |
| 25 | Parcio mewn lle llwytho yn ystod oriau cyfyngedig heb lwytho | 19 | 0.15% |
| 26 | Parcio cerbyd dros 50cm o ymyl ffordd gerbydau a heb fod mewn lle parcio dynodedig | 9 | 0.07% |
| 27 | Parcio gyferbyn â throetffordd is | 272 | 2.09% |
| 40 | Parcio mewn lle parcio unigolyn anabl heb arddangos bathodyn unigolyn anabl dilys yn glir | 479 | 3.67% |
| 45 | Parcio mewn safle tacsi | 76 | 0.58% |
| 46 | Aros lle gwaherddir hynny | 0 | 0.00% |
| 47 | Aros mewn safle bws cyfyngedig | 24 | 0.18% |
| 48 | Aros mewn man cyfyngedig y tu allan i ysgol | 0 | 0.00% |
| 49 | Parcio'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar lwybr beicio | 7 | 0.05% |
| 56 | Parcio'n groes i gyfyngiad aros cerbydau masnachol | 0 | 0.00% |
| 62 | Parcio ag un neu fwy o olwynion ar ran o'r ffordd nad yw rhwng dwy ffordd gerbydau | 2 | 0.02% |
| 99 | Aros ar groesfan i gerddwyr neu fan a nodir â llinellau igam-ogam | 13 | 0.10% |
| | | | |
| 04 | Parcio mewn cilfach mesurydd pan nodir amser cosb | 1 | 0.01% |
| 05 | Parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben | 1 | 0.01% |
| 06 | Parcio heb arddangos tocyn na thaleb talu ac arddangos ddilys yn glir | 10 | 0.08% |
| 07 | Parcio gyda'r taliad wedi'i wneud i estyn yr arhosiad y tu hwnt i'r amser cychwynnol | 0 | 0.00% |
| 08 | Parcio ger mesurydd nad yw'n gweithio yn ystod oriau rheoledig | 0 | 0.00% |
| 09 | Parcio gan arddangos sawl tocyn talu ac arddangos lle gwaherddir hynny | 0 | 0.00% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10 | Parcio heb arddangos dau docyn talu ac arddangos dilys yn glir | 0 | 0.00% |
| 11 | Parcio heb dalu'r tâl parcio | 2 | 0.02% |
| 19 | Parcio mewn lle preswylydd neu ddefnydd a rennir gan arddangos trwydded annilys | 0 | 0.00% |
| 22 | Ailbarcio yn yr un lle parcio o fewn awr i adael | 0 | 0.00% |
| 24 | Heb barcio'n gywir o fewn marciau cilfach/lle | 10 | 0.08% |
| 30 | Parcio am fwy o amser nag a ganiateir | 1661 | 12.73% |
| 35 | Parcio mewn lle parcio disg heb arddangos disg ddilys yn glir | 1 | 0.01% |
| 36 | Parcio mewn lle parcio disg am fwy o amser nag a ganiateir | 0 | 0.00% |
| 63 | Parcio gyda'r injan yn mynd lle gwaherddir hynny | 0 | 0.00% |

6.4 Tramgwyddau Parcio oddi ar y Stryd

| Cod | Disgrifiad | Hysbysiadau Tâl Cosb a Gyflwynwyd | % |
|---|---|---|---|
| 70 | Parcio mewn lle llwytho yn ystod oriau cyfyngedig | 1 | 0.01% |
| 74 | Defnyddio cerbyd mewn lle parcio mewn cysylltiad â gwerthu nwyddau neu eu cynnig neu eu harddangos i'w gwerthu lle gwaherddir hynny | 8 | 0.06% |
| 81 | Parcio mewn man cyfyngedig mewn maes parcio | 31 | 0.24% |
| 85 | Parcio mewn cilfach trwydded heb arddangos trwydded ddilys | 363 | 2.78% |
| 87 | Parcio mewn lle parcio unigolyn anabl heb arddangos bathodyn unigolyn anabl dilys yn glir | 373 | 2.86% |
| 89 | Parcio cerbyd sydd dros uchafswm pwysau/uchder/hyd man | 0 | 0.00% |
| 91 | Parcio mewn maes parcio nad yw wedi'i ddynodi ar gyfer y dosbarth hwnnw o gerbyd | 15 | 0.11% |
| 92 | Parcio gan achosi rhwystr | 0 | 0.00% |
| | | | |
| 73 | Parcio heb dalu'r tâl parcio | 3 | 0.02% |
| 80 | Parcio am fwy na'r uchafswm cyfnod a ganiateir | 71 | 0.54% |
| 82 | Parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben | 1506 | 11.54% |
| 83 | Parcio mewn maes parcio heb arddangos tocyn na thaleb talu ac arddangos ddilys yn glir | 3446 | 26.42% |
| 84 | Parcio gyda thaliad ychwanegol wedi'i wneud i estyn yr arhosiad y tu hwnt i'r amser a brynwyd gyntaf | 2 | 0.02% |
| 86 | Parcio y tu hwnt i farciau'r gilfach | 230 | 1.76% |
| 94 | Sawl tocyn | 0 | 0.00% |
| 95 | Parcio mewn lle parcio at ddiben heblaw am ddiben dynodedig y lle parcio | 41 | 0.31% |

6.5 Hysbysiadau Tâl Cosb a Ddiddymwyd

| | Hysbysiadau Tâl Cosb a Gyflwynwyd | % |
|---|---|---|
| Nifer yr hysbysiadau tâl cosb a ddiddymwyd o ganlyniad i sylwadau ffurfiol<br>Derbyniwyd Her | Ffurfiol: 58<br>Heriau: 1018<br>Cyfanswm: 1076 | 8.13% |
| Nifer yr hysbysiadau tâl cosb a ddiddymwyd am resymau eraill (e.e. methu cysylltu â'r perchennog, gwall Swyddog Gorfodi Sifil, DVLA yn methu rhoi manylion) | 1028 | 8.00% |
| Cyfanswm a Ddiddymwyd | 2104 | 16.13% |

6.6 Cymhariaeth

| | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|
| Nifer yr hysbysiadau tâl cosb a gyflwynwyd | 12901 | 13,045 |
| Nifer yr hysbysiadau tâl cosb ar y stryd | 6505 | 6955 |
| Nifer yr hysbysiadau tâl cosb oddi ar y stryd | 6396 | 6090 |
| Nifer yr hysbysiadau tâl cosb a ddiddymwyd % | 10% | 16.13% |

**6.7 Penderfyniadau dyfarnu a wnaed mewn gwrandawiad Tribiwnlys Cosb Traffig**

| | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|
| | | |
| Cyfanswm | 25 | 18 |
| Gwrthodwyd Apêl | 21 (84%) | 12 (67%) |
| Derbyniwyd Apêl | 4 (16%) | 6 (33%) |

## 7.0 **Gwybodaeth Ariannol**

### 7.1 Cyfrif Ariannol

Mae data ariannol incwm a gwariant a lywodraethir gan Adran 55 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 wedi'u cyflwyno isod.

CRYNODEB ARIANNOL

| Incwm | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|
| Trwyddedau Parcio Preswylwyr (Yn Cynnwys Preswylwyr ac Ymwelwyr) | £38,316.00 | £39,511.00 |
| Goddefebau Parcio | £8,970.00 | £5,286.00 |
| Taliadau Cosb | £398,465.00 | £412,722.00 |
| Cyfanswm Incwm | £445,751.00 | £457,519.00 |

| Gwariant | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|
| Costau Cyflogeion | £205,775.00 | £238,109.00 |
| Eiddo | £41,460.00 | £72,852.00 |
| Nwyddau a Gwasanaethau | £16,552.00 | £17,436.00 |
| Cymorth a Rheoli | £99,535.00 | £103,946.00 |
| Taliadau Eraill | £47,565.00 | £53,300.00 |
| Taliadau Cyfalaf | £6964.00 | £7,184.00 |
| Cyfanswm Gwariant | £417,851.00 | £492,828.00 |
| (Gwarged)/Diffyg | (-£27,901.00) | £35,309.00 |

Nid yw'r wybodaeth ariannol a roddwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys y gweithgarwch oddi ar y stryd nad yw Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn ei lywodraethu.

**8.0 Diweddariad ar Fentrau 2015/2016**

| Menter | Cynnydd |
|---|---|
| • Adolygu cyflwr Maes Parcio Aml-lawr Hwlffordd | Penodwyd ymgynghorwyr i lunio adroddiad sy'n tynnu sylw at yr opsiynau ar gyfer gwella'r maes parcio |
| • Cyflwyno taliadau ar gyfer 6 maes parcio ychwanegol | Cwblhawyd |
| • Adolygu rôl bresennol Swyddogion Gorfodi Sifil | Eleni, ehangwyd y rôl i gynnwys patrolio traethau ar gyfer “Gwaharddiadau cŵn ar draethau”. Adolygu parhaus. |
| • Adolygu cyfarpar llaw presennol Swyddogion Gorfodi Sifil | Rydym wedi cyflwyno cyfarpar llaw ac argraffwyr newydd |
| • Adroddiad ar effaith y taliadau i'w gyflwyno i'r Cabinet ac adolygiad arall o'r taliadau meysydd parcio | Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 12 Medi 2016 |
| • Parhau â gwaith ar Gyfnewidfa Doc Penfro | Cwblhawyd |
| • Ehangu'r cyfleuster parcio ceir yng Ngorsaf Reilffordd Wdig | Cwblhawyd |
| • Adolygu'r holl drwyddedau presennol | Parhaus fel rhan o adroddiad diweddar y cabinet, dyddiedig 12 Medi 2016 |

## 9.0 Datblygiadau a Mentrau yn y Dyfodol

Yn 2016/17, ystyrir nifer o fentrau, naill ai'n dilyn gweithgarwch y llynedd a materion sy'n codi neu fentrau newydd, fel a ganlyn:

- Adolygu'r opsiynau ar gyfer ailwampio Maes Parcio Aml-lawr Hwlffordd.

- Cynnal adolygiad o effaith cyflwyno taliadau newydd.

- Cydweithio ag APCAP, gan ei gefnogi i adolygu a ffurfioli unrhyw faterion sy'n ymwneud â Gorchmynion Parcio, a datblygu'r potensial hefyd ar gyfer cydweithio agosach.

- Rhoi cynllun peilot ar waith mewn perthynas â chefnogi gwaharddiad cŵn ar draethau, drwy'r tîm Gorfodi Sifil yn casglu data a darparu presenoldeb, gyda'r data a gesglir drwy'r dull hwn o bosibl yn cael eu defnyddio i ddatblygu'r dull gweithredu yn y blynyddoedd i ddod, yn amodol ar werthusiad.

- Gweithio gyda'r tîm Trawsnewid i adolygu ffïoedd a thaliadau a chefnogi'r dull o adennill costau.

- Datblygu dull rheoli asedau ar gyfer meysydd parcio – adolygu cyflwr meysydd parcio a, lle y bo digon o adnoddau, gyflwyno gwelliannau lleol.

- Adolygu'r potensial ar gyfer gwefru ceir trydanol mewn meysydd parcio.

**Atodiad 1: Cynlluniau Parcio i Breswylwyr a Defnydd a Rennir**

| |
|---|
| **Aberllydan**<br><br>Heol Forol - ochr y gorllewin |
| **Dale**<br><br>U6006 Heol Dale Fort - ochr y dwyrain |
| **Abergwaun**<br><br>Stryd Wallis – ochr y dwyrain<br>Rhodfa'r Coroni |
| **Hwlffordd**<br><br>Rhes Llwyn - ochr y dwyrain<br>Teras Albany - man parcio |
| Maes Cambrian - ochr y dwyrain |
| Cartlett - ochr y gogledd |
| Ardal Tref y Castell<br>Stryd y Gogledd - ochr y gorllewin<br>Stryd y Gogledd - ochr y dwyrain<br>Holloway - ochr y gogledd<br>Sgwâr y Frenhines - man canolog |
| Bryn Brân - ochr y dwyrain |
| Bryn Myrddin – ochr y gogledd |
| Lôn Pen Nebo |
| Cilgant y Gogledd - ochr y gorllewin |
| Cilgant Winsh - ochr y de |
| **Aberdaugleddau**<br><br>Stryd Robert - ochr y gogledd a'r de |
| **Neyland**<br><br>Bryn Neyland - ochr y de |
| **Penfro**<br><br>Teras Woodbine - ochr y de |
| **Doc Penfro**<br><br>Teras Apley - ochr y de |
| Stryd Llwyn - ochr y gogledd a'r de |
| Stryd yr Eglwys – ochr y gorllewin a'r dwyrain |
| Stryd Gordon - ochr y gorllewin |
| Stryd Gwyther - ochr y gorllewin a'r dwyrain |
| Stryd Laws - ochr y gorllewin a'r dwyrain |
| Stryd Lewis – ochr y gorllewin a'r dwyrain |
| Stryd Penfro - ochr y gorllewin a'r dwyrain |
| Stryd Laws Uchaf - ochr y gorllewin a'r dwyrain |
| Stryd Meurig Uchaf - ochr y gorllewin a'r dwyrain |

| |
|---|
| **Dinbych-y-pysgod**<br><br>Maes Awgwstws (yn gwasanaethu rhifau 1-10 ac 11-18**)** |
| Heol Clareston - ochr y gorllewin a'r de |
| Parc Cwlfer – ochr y gorllewin a'r dwyrain |
| Rhodfa Greenhill – ochr y gorllewin a'r dwyrain |
| Teras Weston - ochr y gorllewin<br>Stryd Harding – ochr y gogledd a'r de |
| Stryd Harries - ochr y gorllewin |
| Cwrt Heywood - ochr y gorllewin<br>Cwrt Heywood - rhifau 74-85 ar ochr y gogledd, 48-64 ar ochr y de |
| Stryd y Broga Isaf - ochr y dwyrain |
| Plas-y-parc - ochr y gogledd a'r de<br>Stryd Edward - ochr y de-ddwyrain<br>Teras y Parc - ochr y de-ddwyrain |
| Heol Penally - ochr y dwyrain |
| Heol Picton - ochr y gorllewin a'r dwyrain |
| Teras Picton - ochr y gorllewin |
| Parêd y Frenhines - ochr y gorllewin |
| De Stryd y Clogwyn - ochr y gogledd |
| Parêd St Florence - ochr y dwyrain |
| Bryn Sant Ioan - ochr y gogledd |
| Stryd Julian Sant - ochr y gogledd-orllewin |
| Stryd Sutton - ochr y dwyrain |
| Y Crofft - ochr y dwyrain |
| Y Norton - ochr y dwyrain |
| Y Paragon - ochr y de |
| Heol Trafalgar - ochr y gogledd-orllewin a'r de-orllewin |
| Stryd Victoria - ochr y gorllewin a'r dwyrain |
| Stryd Warren - ochr y de |

**Cilfach Defnydd a Rennir (Aros Cyfyngedig 1 awr, dim dychwelyd o fewn 1 awr, Llun-Sad 8am-6pm/Deiliaid trwydded)**

| |
|---|
| **Doc Penfro**<br>Stryd Meurig - ochr y gorllewin |

**Cilfach Defnydd a Rennir (Aros Cyfyngedig 1 awr, dim dychwelyd o fewn 1 awr, Llun-Sad 8am-6pm/Deiliaid trwydded)**

| |
|---|
| **Hwlffordd**<br>Holloway - ochr y gogledd |
| Stryd y Gogledd - ochr y dwyrain |
| Sgwâr y Frenhines - man canolog |
| **Tyddewi**<br>Stryd Newydd – ochr y dwyrain |